
DINESYDD
Ebrill
PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH
1983
RHIF 95

# CLWB IFOR BACH



Llongyfarchiadau calonnog i C.C.C.C. am ddewis yr enw uchod i'r clwb trwyddedig cyntaf Cymraeg ei iaith i'w sefydlu yng Nghaerdydd. Maent hefyd wedi dod o hyd i gartref a hwnnw yng nghalon y ddinas - Womanby Street, gyferbyn â'r castell a thu ôl i Westy'r Angel. Gobaith y pwyllgor yw y bydd y clwb yn cymryd ei le ym mywyd Cymraeg y ddinas tua mis Mai. Ond cyn hynny, bydd NOSON AGORED yn y clwb (hen glwb y British Legion), Mawrth 30ain. Anogwn pawb ohonoch i ddod yn llu i weld y cyfleusterau. Bydd yn gyfle gwych i weld a holi ac i ymaelodi.

Bydd y clwb ar agor rhwng 8 a 10 o'r gloch y noson hon. Dewch yn llu! Yn y cyfamser, llongyfarchiadau i'r clwb ar y dewis o enw ac i'r sawl a enillodd y gystadleuaeth i ddod o hyd i'r enw.

Oddi mewn i'r rhifyn hwn, mae cyfle i weld beth yw dyheuadau rhai o'n darllenwyr ar achlysur sefydlu y clwb. Beth yw eich gobeithion chi, tybed? Gadewch inni wybod.

SWYDD WAG

STIWARD/ES CLWB, Cymraeg rhugl. Person cyfrifol i ofalu am fariau a stoc. Telerau a chyflog i'w trafod. Manylion:
Nic ap Glyn, C.C.C.C.,
135 Keppoch St,
Caerdydd. (Tel.497414).

Dyma obeithion rhai o'n plith at ddyfodol y Clwb :

Wedi crwydro fel sipsiwn o'r 'New Ely' i'r 'Conwy' i'r Clwb Trydan, braf fydd cael cartref sefydlog a chyfle i drin a thrafod y gêm beldroed ym moethusrwydd y Stafell Chwaraeon.

Rhodri Gwyn Jones.

Pawb i fwynhau eu hunain yn ei ffordd ei hunan. A plîs plîs dim cwmpo mâs, dim danneddu am bob gweithgaredd. Cymry Caerdydd dilynwch Ray Gravell - JOIWCH!

Jane Cyncoed-Jones.

Mae barn un neu ddau arall ar tud. 11.

# GOLYGYDDOL

Er mawr bleser i bawb ohonom, daeth diwedd hapus (mae'n ymddangos) i saga C.C.C.C. yn chwilio am adeilad. Mewn stryd dawel, sy'n encil gyfleus ynghanol y brifddinas, fe welir gwireddu breuddwydion llawer a llafur caled nifer o weithwyr ffyddlon.

Mae mis Ebrill yn fis da i ddechrau ar fenter newydd o'r fath - ar yr amod na fydd neb yn gwneud ffŵl ohono ei hun! Y gwanwyn yw hi, wedi'r cyfan!

Tra bo adeiladau newydd yn egino o'n cwmpas yng Nghaerdydd, gwelwyd hydref a gaeaf creulon yn dod i ran eraill. Diflannodd y Capitol a Neuadd Cory yn ddiweddar. Mae bylchau gwag wedi eu gadael ar dirlun y ddinas a daeth tristwch i ran amryw wrth yrru o gwmpas yr adfeilion.

Nid bylchau mewn golygfa gyfarwydd a threftadaeth bensaernïol yn unig a gafwyd. Roedd y naill adeilad fel y llall yn ymgorfforiad o rannau helaeth o hanes y ddinas hon. Buont yn eu tro dan eu sang i gynnwrf a seiniau pob math o weithgarwch na welir eu tebyg byth mwy. Cyfarfodydd dirwest yn bygwth uffern dân; cyfarfodydd undeb yn addo gwynfyd; a chyngherddau pop swnllyd yn darparu'r ddau.

O'r ddau le, Neuadd Cory oedd yr hynaf, ond roedd y ddau le yn hynod o ddiddorol ac yn haeddu lle yn ein hanes.

Aeth Caerdydd yn brysur edrych fel dinas fodern rywle yn y byd. Dymchwel cymeriad ac enaid yw dymchwel hanes.

Gofynnir yn aml pam fod cymaint o'n pobl ifanc yn heidio o gwmpas y strydoedd heb barch at eu hamgylchfyd. Pa ryfedd, pan fo gan y genhedlaeth hŷn hefyd gyn lleied o barch at etifeddiaeth. Fandaliaeth gyfreithlon yw llawer o'r tynnu i lawr a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Peryglus a ffol yw tynnu i lawr heb fod â chynlluniau doeth ar gyfer ailadeiladu. (Fe welwyd eisioes beth a ddigwyddodd i gynlluniau mawreddog Holiday Inn - a hynny ar ôl symud y farchnad agored er mwyn gwneud lle i'r gwesty nad yw nawr yn debyg o gael ei adeiladu).

Fe gofiwch wedyn am yr adeiladau unigryw a ddiflannodd o Ferthyr. Ac o Abertawe. Mae cymaint o hanes cynnu'r werin wedi ei groniclo yma yn Ne Cymru. Diystyrwyd yr hanes hwnnw gan sosialaeth ein cyfnod ni, yn union fel y diystyrwyd dioddefaint y werin honno gan gyfalafiaeth y Chwyldro Diwydiannol. Mor gyflym y mae'r rhod yn troi.

A daeth yn wanwyn unwaith eto. Tymor y prifiant a'r dechreuadau newydd a ballu! Peidiwch ag anghofio Cyfarfod Blynyddol <u>Y Dinesydd</u>. A pheidiwch anghofio Noson Agored y clwb newydd. Mae'r naill fel y llall yma i'ch gwasanaethu. Ond ni allwn wneud dim heb eich cefnogaeth.

# Y CALENDR

Ebrill

11 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty'r Parc am 7.30 p.m. Prif Westai: Havard Gregory.

Mai

9 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty'r Parc am 1. p.m. Prif Westai: Miss Elen Rhys.

Mehefin

6 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty'r Parc am 7.30 p.m. Prif Westai: Syr Alun Talfan Davies

Gorffennaf

4 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty'r Parc am 1 p.m. Prif Westai: Dr. Ilid Anthony

Mai

7 Gwibdaith y Cymrodorion

Ebrill

15 Ymweliad Cymrodorion Aberdâr â Chaerdydd. Festri Minny Street, 7.15 p.m.

<u>Ebrill</u> :

19 Cyfarfod i sefydlu Pwyllgor Llety a Chroeso Eisteddfod yr Urdd 1985, Ysgol Glantaf, 7.30 p.m.

22 Cyfarfod Cyhoeddus Y Dinesydd, Festri Dewi Sant, 7.30 p.m.

23 Ffair Sborion, 1 p.m. Christ Church, Lake North Rd. Er budd Ysgol Feithrin Y Waun.

23 Cyngerdd Pop Cristnogol gyda Pererin, Tecwyn Ifan, Tystion ac Idris Williams, yn Ebeneser, Heol Siarl, am 8 p.m. I'w ffilmio ar gyfer S4C. Tocynnau £1.50. Ffoniwch Caerdydd 490582.

Mai :

2 Gŵyl Fai gyda Dafydd Iwan yng Ngherddi Dyffryn. Dafydd Iwan yn arwain y plant i Gwm Rhyd y Rhosyn. Canu, dawnsio a Superted. Stondinau amrywiol a bwyd ysgafn. Yn y tŷ os yw yn bwrw glaw. Bws awyr agored yn gadael canol y ddinas am 2 o'r gloch. Prisiau gostyngol i'r rhai â thocynnau. Oedolion: £1; Plant Ysgol: 50c. Plant Meithrin am ddim. Tocynnau ar gael yn Taflen, Oriel a thrwy'r Ysgolion Meithrin.

<u>Mehefin</u> :

25 Ffair Haf Glantaf

7 Gorymdaith yr Ŵyl Feithrin. Cychwyn o'r Amgueddfa Genedlaethol am 2 p.m.

7 Cyngerdd Côr Philharmonic Caerdydd, yn Neuadd y Brifysgol, Heol Corbett; Mynediad trwy raglen, Pris: £2.50 a £1.50.
Emyn o Fawl: Mendelssohn
Dewi Sant: Arwel Hughes
Sanctus: Arwel Hughes (Comisiynwyr gan y Côr)
Artistiaid: Yolande Jones (Soprano);
Timothy German (Tenor) (gyda chaniatad Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru)
Eric Roberts (Bariton)

# LLYTHYRAU

Llythyr at Y Golygydd,

Rydwi wedi bwriadu ysgrifennu llith atoch ers peth amser bellach ond heb fedru cael yr amser na'r plwc i wneud hynny. Tydwi ddim yn un sydd am dynnu sylw ataf fy hun na dim byd felly ond mae hyn wedi bod yn pwyso ar fy meddwl i ers hydoedd. Wel, a bod yn fanwl, pob tro mae 'na Ddinesydd newydd yn cyrraedd yr aelwyd acw, a finna yn troi at y dudalen chwaraeon 'na, rydwi'n cynddeiriogi trwyddaf yn gweld hanes y tîm peldroed petha'r Cymric 'na a'u helyntion diweddaraf. Cynddeiriogi ddywedais, rydwi'n gandryll a bod yn onest, gwylltio'n gacwn hefo'r gath a'r wraig a'r fam yng nghyfraith a Hef a Ieu. Bydd yn rhaid cael glasiad neu ddau o Brains wedyn er mwyn imi gael dychwelyd i dir syber y rhai dôf.

Pam colli tymer ddywedsoch chi dros rhyw fymryn o gofnod o gemau peldroed diniwed ar feysydd y brif-ddinas. A dyna chi wedi taro'r hoelen ar ei phen - peldroed. Peldroed myn cebyst i! Peldroed y galwch chi o! Mr. Golygydd, ydach chi wedi gweld y tîm yma yn chwarae? Ydych chi a darllenwyr eraill y Dinesydd wedi mentro i faes Pontcanna ar bnawn Sadwrn i weld y smonach - y fath smonach wir nes y bydd rhywun yn ansicr prun a'i chwerthin neu grio y dylai ei wneud?

Wel, do, mi fentrais un pnawn Sadwrn, dim byd arall i'w wneud gwaetha'r modd - dim siopa hefo'r wraig hyd yn oed i dorri ar segurdod y pnawn. Mynd yn fy nhot fawr a'm sgiarff rownd fy ngwddf - un coch a gwyn fel y byddai'n gweddu i liwiau'r tîm. (Penderfynnu gadael y cap yn y tŷ rhag gorwneud y tro cyntaf a rhag tynnu sylw'r werin arall o ardal y Sblott). Sefyllian am hydoedd yng nghanol gwynt miniog yn chwilio am y cewri cochion i ymddangos, ac ow dyna siom o weld mai crysau gwyrddion fel y Gwyddelod, a wisgai'r tîm bondibethma yma. Ond o ystyried, hwyrach mai gwell fyddai iddynt sticio a'u crysau gwyrddion a pheidio â'n harddel eu hunain yn Gymry ar ôl y fath berff-ormans.

Cofiwch chi, dim ond y crysau sydd yr un lliw - mae pawb â'i drowsus bach ei liw ei hun - ambell un yn goch, un arall yn ddu, un glas hyd yn oed, ac am y sannau - prin fod un pâr yr un lliw,heb sôn am fod y tîm yn gwisgo'n unlliw. Be well sydd i'w ddisgwyl ynte os nad ydynt yn edrych fel chwaraewyr pel-droed - ellwch chi ddychmygu'r actor Ronald Reagan fel Arlywydd America!

A dyna gychwyn y gêm yn erbyn Sblott Albion a'r dyfarnwr bach minllym yn chwythu ei bib bob yn ail eiliad am rhyw gamwri neu gilydd. Roedd 'na foi yn y gôl i'r Cymric sydd yn debyg i Groucho Marx hefo'i locsyn trwyn - fum i ddim yn hir cyn gweld mai Groucho Marx oedd o - pel yn cael ei chroesi ar draws y cwrt a'r clown yna yn neidio amdani ac yn ei methu a rhoi rhwydd hynt i'r Sblottyn sgorio. Ychydig yn ddiweddarach dyna gamddealltwriaeth pur rhwng y twrch daear a'r baw ceffyl ffres wrth ymyl y smotyn gwyn a dyna hi'n ddwy i ddim heb fawr o drafferth. Dyma ddechrau rhegi a gwawdio wedyn; y postyn cornel a'r postyn gôl yn gynwysiedig yn y ffrae, a'r awyr yn las gan y fath iaith - y blaenor a'r athro fel ei gilydd. Roedd 'na un nansi o foi hefo clustdlws yn ei glust chwith, ac un arall hefo lwmpyn o aur hirsgwar o amgylch ei wddf - sôn am blydi pwfftas wir ynte. Yn ôl at y chwarae, yn wir mae'n syndod a rhyfeddod y rhyfeddodau fod y tîm yma wedi llwyddo i dynnu dwy gôl yn ôl cyn diwedd y gêm a sicrhau gêm gyfartal (Rheon a Gareth 'Sêr' yn sgorio). Allwn i ddim credu fod y fath chwarae yn bosibl - roedd 'na fonllefau o gymerad-wyaeth os y rhoddent ddwy bas hefo'i gilydd, ac os oedd cic Groucho yn cyrraedd ymhellach na hanner ffordd, roedd na ŵyl y banc i ddilyn.

Mi benderfynais roi un cyfle arall iddynt ddangos eu medr, a peidio eu barnu ar un gêm yn unig. Yn erbyn Gwaelod y Garth y Sadwrn canlynol, a thîm gwanach na hyd yn oed y Cymric oedd y gwrth-wynebwyr yma. Cafwyd sgôr griced o blaid y gwyrddion ond welais i ddim byd i godi calon na dim arall yn y perfformas hwn chwaith. Unarddeg i ddim oedd y sgôr terfynnol ac roeddwn yn fwy na pharod i fynd adra ar ddiwedd y gêm i fwynhau gêm o Liwdo gyda'r bwdji - roedd 'na fwy o gyffro o beth myrdd yn y gêm honno. (Huw bach, Huw Prich, Ken Passmore, Rheon 2, Elwyn R. 3, Rhodri 3 a sgoriodd y goliau).

I fod yn fwy na theg â'r tîm, fe'i gwyliais y Sadwrn wedi hynny hefyd yn erbyn Cwrt y Vil ym Mhenarth a gwireddwyd fy mreuddwyd, neu'n hytrach fy hunllef. Mae'n wir iddynt sicrhau gêm gyfartal, un gôl yr un, ond roedd perlau'r cefnwyr a'u camgymeriadau di-rif yn ofid a loes i'r pengwyns a wylient ar y gwifrau teliffon cyfagos.
"Eisteddent yn rhes"
meddai'r bardd ynte - y 'Falklands factor' sy'n gyfrifol am y cam-ddyfynnu. (Rhodri'n sgorio unig gôl y Cymric.

Bu'n rhaid imi fodloni ar ddarllen canlyniadau'r gemau ar ôl yr uchod ar dudalennau'r 'National Newspaper of Wales'.
Clwb Cymric 3 Allied Steel 3 (Rhodri 3), ac yna ar Sadwrn, 19eg o Fawrth, Clwb Cymric 2 St. Patrick's 7 (Rheon, Rhodri).

Mae 'na ail dîm hefyd fel y deallaf a bodlonaf yma ar nodi'r sgoriau yn eu gemau hwythau yn ystod yr un cyfnod.

Aelwyd yr Urdd O Caerau (Elai) 9
Aelwyd yr Urdd 3 BTD Stores O (Tony 2, Pwt 1)
Aelwyd yr Urdd 2 Cathays Conservatives 2 (Tony,Pwt)

Yn wyneb y sefyllfa druenus felly sydd yn bodoli yn maes peldroed Cymreig y brifddinas, a gaf i wneud apêl atoch i beidio cyhoeddi mwy o erthyglau yn cofnodi na chanu clodydd y Cymric hyd nes y bydd y safon wedi codi yn ddigonol i gyfiawnhau y fath sylw. Gobeithio'n wir na fydd gair amdanynt yn y rhifyn hwn.

R. Wdlyn,

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Croeso mawr y mis hwn i bennill hir a thoddaid crefftus gan Huw Meirion Edwards, disgybl yn Ysgol Llanhari. Gwyddwn ei fod yn cynganeddu oherwydd efo a enillodd yng nghystadleuaeth yr englyn yn Eisteddfod yr Ysgol, ond ni wyddwn ei fod cystal llaw. Cafodd afael y tro hwn ar ddelwedd gyffrous gan lwyddo i'w mynegi yn gabol, a gwn y cawn glywed mwy ganddo yn y dyfodol.

CYFAREDD

(Tro mewn gwinllan yn Ffrainc fis nos)

Diwair yw'r wenlloer lygada'r winllan,
Nawdd ei llewych fel amynedd lleian,
A chan erwau'r calchbridd, nid anniddan
Anwesol fodio'i chwaer oesol fudan;
Minnau, â'r cwbl i'm hunan, - rhwng deufyd
Meddwaf ar dud pob ennyd benwan.

Huw Meirion Edwards.

Cafodd John Wood yntau weledigaeth gynhyrfus ond gan mai cywyddwr ydyw yn anad dim, dyna'r mesur a ddewisodd i'w gerdd. Melys, moes mwy.

CNWD Y NOS

Rhoed du allu'r tywyllwch
I daenu draw gnwd yn drwch;
Bu'n gosod trwm gysgodion
I'w hau'n swrth hyd y nos hon,
Ond tyr ar y tyfiant du
Ddifodiant o'r aeddfedu.
Cwyd ar oeraf araf awr
Wan olau o'r gynilwawr.
Prin, fel yr ymgripia'r rhod,
Yw'r rhybudd diarwybod
A rydd yn awr i'r ddu nos
Na phery: ni chaiff aros.
Araf o hyd i gryfhau
Yw'r wawr yn y gororau,
A seria ei thrawswyriad
Loyw lafn dros ymyl y wlad;
Tyr, â gorchest ddilestair,
Weoedd y gwyll fel lladd gwair.

Yn y tymor pan dorrir
Cnwd teg mewn cae yn y tir,
Erys yno dros ennyd
Ger y clawdd, ar gwr cul, ŷd;
Di-aros yw'r pladurwyr,
A'r llafnau tenau a'i tyr.

Daw diwedd unwedd union
Ar erwau oer o'r wawr hon:
Ysig gnwd y nos, cyn hir,
O'i wanllyd fyd a fedir.
Am orig, ni chymerir
Ymylon tewion y tir:
Gwyll-sypiau, mewn onglau ôl,
A gedwir yn gysgodol.
Ond pwy, wrth erwindeb byd,
Na ddymunodd am ennyd
Gadw, â'r gwyll i gyd ar gau,
Lain orwelw o lawn erwau
Yn gysur rhag dolur dydd
A'i holyna'n aflonydd?

John Wood.

Priodol yw cloi'r golofn y tro hwn eto gydag englyn arall gan yr hen ŵr mwyn, Llewelyn Morgan.

PREGETHWR

Cenhadwr Duw, ac enaid ar dân, - llef
Ddaw â llu i'r hafan;
Yr ellyll a fwria allan,
Brwd ei glod i'r Ysbryd Glân.

Llewelyn Morgan

HEDDWCH

Yn ddiweddar, rydym wedi gweld datblygiadau o blaid ac yn erbyn diarfogi yng Nghaerdydd; sefydlu'r siop heddwch ragorol yn Mackintosh Place yn symbyliad i bawb ohonom, a'r datganiad fod ffatri arfau (eu cynhyrchion) ar 'stepen' ein drws yn Llanishen yn dod a realiti'r sefyllfa yn fyw i ni gyd.

Mae'n amlwg bellach, fod angen sefydlu grŵp heddwch i Gymry Cymraeg Caerdydd i gael cwrdd yn achlysurol. Felly, mae croeso i bawb sydd yn poeni am ddyfodol eu byd a'u gwlad i Ysgol GLANTAF, NOS FAWRTH, MAI 3ydd am 7.30 y nos. Fe fydd ffilm ac arddangosfa yn cael eu dangos. Mae'r arddangosfa ar gael i unrhyw fudiad neu eglwys sydd eisiau ei benthyg, cysylltwch â'r rhif isod am fwy o wybodaeth.

Yn fras, pwrpas sefydlu'r grŵp fydd:

1. Hysbysu, addysgu a helpu pawb i ddeall a gwneud rhywbeth ynglŷn â'r sefyllfa.

2. Gyda etholiadau ar y gweill - pwyso ar bob ymgeisydd seneddol yng Nghaerdydd i gael polisi diarfogi pendant.

3. Pwyso i sicrhau fod Caerdydd a Chymru yn hollol ddiniwclear.

4. Llythyru - fel bo angen.

Fe fydd y grwp yn cadw mewn cysylltiad â phob grwp tebyg sydd yng Nghaerdydd ar gyfer y di-Gymraeg.

Byddwn yn gweithio drwy ddulliau heddychlon ond y gobaith yw cael hwyl yn y gwaith. Croesewir unrhyw syniad arall o beth allwn ei wneud - dewch â nhw gyda chi i'r cyfarfod.

Mae croeso i bawb o bob oedran, capel, cymdeithas, mudiad a barn (diarfogi amlochrog ac un ochrog) mae dadl bob amser yn iachus! Mae digon o waith i bawb.

COFIWCH : Rhaid cael digon o bobl yn y cyfarfod cyntaf cyn y medrwn sefydlu grwp heddwch yn derfynol. Felly, mae'n bwysig i chi gyd ddod.

Os oes diddordeb gennych ond yn methu dod i'r cyfarfod, cysylltwch â Meinir Vittle - 752522.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld i gyd.

# Y SILFF LYFRAU

F. Byron Howells, ANTUR YR ATOMFA, Gwasg Tŷ ar y Graig, £2.25.
J. Selwyn Lloyd, WRTH DRAED Y MEIRW, Gwasg Gomer, £2.25
Dafydd Parri, CAILO 2, Y Lolfa, £1.55.

-------

O'r tair nofel uchod ANTUR YR ATOMFA yw'r un fwyaf darllenadwy. Ynddi disgrifir anturiaethau dau fachgen a'u ffrind sy'n byw mewn pentref nad yw'n gwbl annhebyg i Drawsfynydd. Daw hoff ewythr y bechgyn i aros atynt er mwyn ymchwilio i'r hyn all fynd o'i le yn fuan yn yr atomfa. Mae protestwyr gwrth-niwcliar yn cynllwynio i barlysu'r lle ac mae hyn, yng ngolwg yr ewythr, y bechgyn, a'r nofelydd yntau, yn beth drwg.

Gweinidog yw'r nofelydd, a gweinidog yw tad y ddau frawd yn y llyfr. Cewch y teimlad wrth ddarllen y stori iddi gael ei llunio'n arbennig i'w difyrru hwy, mor gartrefol yw'r disgrifiad o aelodau'r teulu yn byw eu bywyd o ddydd i ddydd.

Gŵyr yr awdur ddigon am fathau gwahanol o feiciau a cheir, a'r math o bethau sy'n digwydd mewn atomfa, i wneud hon yn nofel gredadwy ac rwy'n siwr y bydd plant wrth eu bodd yn ei darllen.

Brawd a chwaer yw'r cymeriadau canolog yn WRTH DRAED Y MEIRW ac y maent hwythau yn cael cymorth ffrind wrth iddynt geisio datrys un dirgelwch ar ôl y llall. Meicroffilm sydd wrth draed y meirw. Mae yma hefyd ewythr sydd wedi diflannu, gwe pry cop, llygod mawr, sŵn sgrechian yn dod o berfeddion y tŷ yn y nos, ogof morladron, rhodfeydd cyfrin, Americanwyr da, Rwsiaid drwg, a ditectif sy'n cymryd arno ei fod yn drempyn. Tua diwedd y nofel mae'n codi ei set radio ac yn dweud 'Trempyn un i trempyn dau'. Dyna, i mi, er gwaethaf y diffyg treiglo, yr unig beth difyr yn y nofel siomedig hon. Mae'n anodd credu bod nofelydd mor uchel ei barch â J.Selwyn Lloyd wedi cynhyrchu gwaith mor eilradd a hunan-barodiol.

Nofelydd prysur arall yw Dafydd Parri. Yn CAILO 2 dilynwn Cailo, y ci defaid a aeth ar goll, i fyd y syrcas. Yno mae un o ferched y syrcas yn ei drin yn garedig iawn ond nid yw pawb arall mor addfwyn, yn arbennig wedi i Cailo, ac yntau wedi dychryn, achosi llanast ofnadwy ar ganol un o'r perfformiadau. Unionir y cam, fodd bynnag, wrth i'r ci defaid hoffus hwn ymddwyn yn hynod arwrol pan ddaw llifogydd i fygwth y syrcas a'r ardal gyfagos.

Mae awyrgylch y syrcas, yn arbennig yn ystod y perfformiad, yn cael ei ddarlunio'n fedrus. Effeithiol, hefyd, yw'r tyndra rhwng y cymeriadau. Dim ond dau beth sy'n tynnu oddi ar lwyddiant y nofel i ryw raddau; y stori ysbryd anghydnaws tua'i diwedd a thuedd yr awdur i bentyrru ffeithiau (er mor ddifyr) am yr anifeiliaid yn y syrcas, eu hanes, a sut y'u hyfforddir. Mae'n amlwg iddo ymchwilio'n gydwybodol i'r maes cyn llunio'r nofel. Gresyn iddo fethu cuddio'r ymdrech honno yn fwy celfydd.

Philip Wyn Jones.

---

Irma Chilton, PRYNU POLI, Gwasg y Dref Wen, £1.90, CBAC
Irma Chilton, TOMEN Y BWLCH, Gwasg Gomer, £1.95, CBAC

--------

Er i mi fwynhau'r ddau lyfr uchod, cefais fwy o flas ar PRYNU POLI. Stori dda a sbonc ynddi yw hi am blentyn sydd wedi dwli ar boli parot mewn siop anifeiliaid anwes. Mae ei ymdrechion dygn a doniol i godi arian at ei brynu yn ennyn cydymdeimlad mawr, yn enwedig ei stondin sborion. Mae'n hawdd uniaethu â'r plentyn naturiol yma, er wn i ddim a fydd pawb yn fodlon ar ddiwedd y stori. Gan ei fod yn llyfr "tenau", y print yn fras, yr ymylon yn llydan, gyda digon o baragraffau a sgwrs i dorri'r tudalennau, mae'n addas iawn i blentyn sydd yn dechrau cael blas ar ddarllen - ac yn dda hefyd ar gyfer darllen yn uchel.

Mae TOMEN Y BWLCH yn adrodd dirgelwch Wili Druan. Mae hefyd, yng ngeiriau un o blant y llyfr yn "stori wych, am Owain Gwynedd, tywysog y Gogledd, yn rhoi yfflon o gweir i Harri'r Ail" ac yn "stori am blant, - dau blentyn, brawd a chwaer, o'r pentre......" Ceir yma'r thema sy'n gyfarwydd i ddarllenwyr nifer o straeon eraill Mrs. Chilton, sef symud yn ôl a blaen rhwng dau gyfnod. Ar ôl dechrau braidd yn araf, mae'r stori'n carlamu yn ei blaen yn gyffrous. Fel arfer, mae naws y cyfnod yn cael ei chyfleu'n gredadwy a hudolus. Hoffais yn fawr y manylion cynnil am y rhostir o gwmpas safle'r hen gaer sy'n rhoi ei enw i'r llyfr, a'r Gymraeg pert, ystwyth. Fe ddylai TOMEN Y BWLCH apelio at unrhyw blentyn a gafodd flas ar Y LLONG, ac sy'n hoffi stori antur gyda joch go dda o hanes.

Ann Saer.

---

GŴYL FEITHRIN GENEDLAETHOL MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Prif ddigwyddiad yr Ŵyl yn y De fydd PICNIC SUPERTED ym Mharc Gwledig Margam, ar y dydd Sadwrn, Mai 14 am 2 o'r gloch.


Bydd mynediad am ddim i blant dan 11 oed fydd yn cario tedi; 40c. i oedolion. Disgwylir pob math o ddigwyddiadau; pypedau, Superted, Mabon, Mistar Urdd, Wil Cwac Cwac, Barri'r Arth, teulu Ffalabalam, Pengwyn. Bydd stondinau balŵn awyr boeth; gwobrau i'r tedis; te parti mwnciod; Adloniant gyda Johnny Tudor ac Olwen Rees, Sulwyn Thomas, Cwmni Theatr Tic.
Dewch a phicnic gyda chi a mwynhau pnawn ym Mharc Margam.

---

Diddorol sylwi bod Cwmni Tacsi yng Nghaerdydd yn hysbysebu yn y Gymraeg gan argraffu cardiau uniaith Gymraeg. Dylem fel darllenwyr y Dinesydd eu cefnogi. Y cwmni yw Tacsi'r Castell, Stryd Westgate.


---

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD**
**561788**



ER MWYN
TREFNU'CH GWYLIAU
DEFNYDDIWCH

***GOING PLACES***



**Ffoniwch 493424**
**25 MAESYFFYNNON**

Mae 'Lein Agored' Thomson gennyn nawr i sicrhau cadarnhad yn union i ateb eich gofynion gwyliau.

## Y WELLFIELD

Arbenigwyr baco pib a sigâr. Melysion Prydain a'r Cyfandir. Anrhegion a Chrefftau Cymreig - mewn siop o oes Fictoria.

**53 Heol Maesyffynnon, Caerdydd.**

The Orange Grove

**Y LLWYN OREN**
**43 MAESFFYNNON**
**Ffon: 499543**
***Arbenigwyr Mewn Ffrwythau a Salad Dethol***
**Hefyd 22 CANOLFAN Y FAELFA, LLANEDEYRN,**
**Ffon: 734372**

Berni's Delicatessen

**57 MAESYFFYNNON - Ffon: 490358**

**Arbenigwyr mewn bwyd, cigoedd a chosydd y Cyfandir, coffi a gwinoedd yr Eidal. Pasta, Lasagna a Ravioli o'n gwaith ein hunain.**



# CROESO I FAESYFFYNON



## MARTIN WILLY

Ar wahan i'ch gofynion gwallt a thriniaeth i'r corff a'r wyneb

## MAGLWCH YR HAUL!

Bydd 1 awr ar ein gwelyau ni gystal â DAU ddiwrnod yn heulwen y Môr Canoldir.

Byddwch yn destun eiddigedd eich cyfeillion wedi 1 awr yn unig. Cymerwch fantais ar gynnig

## MARTIN WILLY

**(am bythefnos yn unig)**

| | |
|---|---|
| Wyneb a rhan o'r corff: | 1 x ½ awr £5 |
| Y cyfan ohonoch: | 1 x l awr £10 |
| | 3 x 1 awr £25 |

**Ffôn: 483979 neu 491800**
**30/32 Heol Maesyffynnon, Caerdydd.**

## Country Cousins

**DILLAD ANARFEROL MEWN DEFNYDDIAU NATURIOL**

***GWLAN***

***SIDAN***

***COTWM***

**34 MAESYFFYNNON**
**Ffon: 493647**

# CROESO I FAESYFFYNON

Mewn rhifyn o'r Dinesydd ddwy flynedd yn ôl, cawsom ddau dudalen yn hysbysebu rhai o siopau heol arbennig iawn yn ein prifddinas - yn wir, un o'n strydoedd siopa gorau ni: Heol Maesyffynnon (Wellfield Rd.) ym Mharc y Rhath. Mae'n Feca i gannoedd o Gymry Cymraeg bro'r Dinesydd, ac mae llawer o siopwyr y 'pentref' yma ar ymylon y ddinas yn ymwybodol o hyn, er mai di-Gymraeg yw'r mwyafrif ohonynt. Bob tro y bum i yno, clywais y Gymraeg ar wefusau rhywun.

Fel y gwelwch ar y tudalennau yma, bu nifer ohonynt yn ddigon brwd i'n cefnogi a gosod hysbyseb yn ein papur bro. Felly, pan ewch heibio iddynt y tro nesaf, cofiwch gyfeirio at eu cefnogaeth i'n hachos ni.

Dyna un siop arbennig o ddiddorol : y 'Wellfield', cyrchfan pawb sy'n caru baco a phib a sigar, a melysion o bob math. Mae'n llawn awyrgylch o oes Fictoria - dyna'r paneli, y dodrefn, y drychau a'r hen hysbysebion. Ar hyn o bryd, cewch weld v casgliad gorau o wyau'r Pasg - rhai ohonynt gyda'r pethau mwyaf egsotic a ddaeth erioed allan o iar y Pasg! Gyda llaw, mae croeso i unrhyw gymdeithas i fyny at ryw ugain o aelodau i gael noson Fictorianaidd yn y siop. Cofiwch fwynhau'r ffenest - ac enwch y Dinesydd.

I'r sawl sydd â dant melys o fath arall, ewch at Ferrari's am goffi da a theisen flasus - neu archebwch yno deisen briodas neu fedydd neu benblwydd.
Fe gofiwch mai o bentref Bardi, yng ngogledd yr Eidal, y daeth lliaws o'n cyd-ddinasyddion, er mai Cymreigaidd yw eu hacen erbyn hyn. . Ac mae'r ffenest yn wledd i'r llygad. Cofiwch enwi'r Dinesydd!

Un o dref Olten, yn y Swistir, yw Martin Willy, a fu'n gyfrifol am rai blynyddoedd bellach am wallt deniadol cannoedd o wragedd y brifddinas. O Bardi y daw'r teulu Ferrari. Cofiwch enwi'r Dinesydd wrth fwynhau'ch coffi neu deisen briodas!

O Bardi hefyd y daeth y teulu Berni. Pa syndod mai yma y cewch amrywiaeth o gosydd a gwinoedd yr Eidal, o salami a chigoedd eraill? Bob wythnos bydd Signor Berni yn paratoi Ravioli a Lasagna ar gyfer ei gwsmeriaid.
Sylwch ar y lliw haul ar y ferch ifanc yna. O'r Bahamas? Dim ffiar! O Heol Maesyffynnon, neu un o siopau eraill Caerdydd Martin Willy. Mae ganddo gynnig arbennig yr wythnosau hyn. Manteisiwch arno fel paratoad i'r gwyliau. Pa wraig (neu ŵr...) na haedda dipyn o'i sbwylio weithiau? Cofiwch enwi'r Dinesydd!

Pa werth lliw haul heb ddillad haf? Beth bynnag yw'r tymor, cewch ddewis amheuthun yn siop Country Cousins. Mae arbenigrwydd a 'steil' yn perthyn i'r hyn sydd i'w gynnig yma : dillad o wahanol wledydd o liwiau deniadol iawn, a llawer 'darganfyddiad' na cheir mohono yn siopau mawr y dre. Os am rywbeth 'chic' na welwch neb arall yn ei wisgo, yna Country Cousins amdani. Cewch wên a gwasanaeth hawdd-gar. Cofiwch enwi'r Dinesydd!

A chyda'ch lliw haul a'ch dillad haf, pa les dihoeni yma yng Nghaerdydd? Y gorwel pell amdani! A pha well cyfarwyddyd nag eiddo Going Places? Cewch yma arweiniad a chyngor a gwasanaeth. Os am wyliau parod, yna cewch ateb a chadarnhad yn y fan a'r lle, diolch i'r 'micro-chip' yn y system newydd. Gwyliau llawen i chi! A chofiwch enwi'r Dinesydd!

Chi'r dynion, peidiwch chithau, chwaith, ag esgeuluso'ch hunain. Wyddech chi fod dynion o chwaeth yn dod bob cam o Lundain i lenwi'u cwpwrdd dillad yn siop Gordon Cirel? Daw'r dillad o sawl gwlad ar y cyfandir, a chewch yma y gorau o ran toriad a deunydd. Cewch groeso cyfeillgar a phob cymorth gan y perchennog. Cofiwch enwi'r Dinesydd!

Dyna i chi siop sy 'fel y pin' o lân a destlus, a phopeth yn ei le - Y Llwyn Oren : yr Orange Grove. Dyma'r dewis mwyaf danteithiol o ffrwythau a llysiau y gellid ei ddymuno. Cewch flodau a phlanhigion y tymor hefyd, a phopeth ar ei orau.

Digon beichus yw siopa y dyddiau yma, heb fawr o bleser na mwynhad. Ond yma, ym Maesyffynnon, mae awyrgylch hamddenol.

**CYFARFOD**

**BLYNYDDOL**

**Y DINESYDD**

**NOS WENER,**
**EBRILL 22**

**FESTRI**
**EGLWYS DEWI SANT**
**7.30p.m.**


**Fingerprints**

**Gwasanaeth ystyriol gan wasg a redir ar linellau cydweithredol**

**Tŷ Penderyn,**
**Lôn Pen-y-Wain**
**Y Rhâth,**
**CAERDYDD**

**Ffôn: 482582**

**FERRARI**

Cewch eich plesio gyda'n bara a'n teisennau.

Gallwn wneud eich gwaith yn hawdd wrth drefnu eich parti : vol-au-vent, pasti, pice selsig, fondent, a thorthau bach.

Mae siopau bara FERRARI mewn sawl man:

**Ffordd Castell,**
**106 Heol y Crwys,**
**10 Heol Merthyr,**
**773 Heol Casnewydd,**
**11 Heol Windsor, Penarth**
**a 33 Heol Maesyffynnon.**

## Y GYNGRES GELTAIDD

Eleni daw'r Gyngres Geltaidd i Gymru, a chynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd Pantycelyn, Aberystwyth, 25-30 Gorffennaf, yr wythnos cyn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Apeliwn at y Cymry twymgalon i ymuno â'r Gyngres (dim ond punt y flwyddyn yw'r tâl aelodaeth) a dyfod i Aberystwyth i gyfarfod a'u cyd-Geltiaid. Bydd pobl Iwerddon, yr Alban, Llydaw, Cernyw ac Ynys Manaw yn cael eu calonogi wrth gyfarfod a phobl ifainc sy'n siarad Cymraeg yn naturiol ac yn ymhyfrydu yn eu Cymreictod. Da fyddai cael arweinwyr cymdeithas, yn athrawon, gweinidogion a swyddogion ieuenctid i ymuno â ni er mwyn iddynt fedru helpu a chynghori'r rhai sy'n ceisio hybu ieithoedd lleiafrifoedd. Gwneir llawer o waith y Gyngres trwy sgyrsiau anffurfiol.

Mae digon o hwyl i'w gael; trefnir teithiau, nosweithiau llawn, cyngherddau ac ar y nos Wener olaf cynhelir cyngerdd Celtaidd. Thema'r Gyngres yw Cyfathrebu. Daw Mr. Owen Edwards, Pennaeth S4C i annerch ac i ddangos enghreifftiau o raglenni teledu Cymraeg. Bydd pob gwlad yn rhoi anerchiad ar ryw agwedd ar Gyfathrebu a cheir trafodaethau.


Cymdeithas ddiwylliannol yw'r Gyngres Geltaidd, a dyma gyfle i ddod i wybod am ddiwylliant y gwledydd Celtaidd a dod i adnabod y bobl.

Gorau po gyntaf i chi holi ynglŷn â llety, maes carafan neu wersyll. Sgrifennwch at Mr. Delwyn Phillips, 20 Stryd Newydd, Aberystwyth, Dyfed. Tel. 615509.

CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00—7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530

# O'R SEDD GEFN

THE VERDICT (gyda Paul Newman, James Mason, Charlotte Rampling, Jack Warden a Milo O'Shea. Cyfarwyddwr: Sidney Lusset)

Er fod iddi bedigri ardderchog mae rhywbeth braidd yn hen ffasiwn ynglŷn â'r ffilm rymus hon. Ynddi mae Paul Newman yn chwarae rhan twrne a welodd ddyddiau gwell - mae'n unig a digyfeiriad yn ei fywyd personol, yn aneffeithiol yn ei waith. Un o wendidau prin y ffilm yw ei bod yn cymryd gormod o amser ar y dechrau i sefydlu'r cymeriad. Gellid bod wedi cwtogi'r ugain munud cyntaf er budd mawr i'r cyfanwaith.

Gofynnir i'r cyfreithiwr ofalu am gael iawndal ar ran gwraig ifanc a adawyd yn fyw mewn enw yn unig ar ôl triniaeth wallus mewn ysbyty. Amddiffynir yr ysbyty gan gyfreithiwr slic, llwyddiannus a chwbl diegwyddor (James Mason).

Mae'r arwr felly yn chwilio am gyfiawnder yn wyneb cyfundrefn sy'n amlwg yn ei erbyn. Nid yw thema yr unigolyn yn erbyn y system yn newydd o gwbl i Paul Newman. Dyna fu thema rhai o'i ffilmiau gorau (megis COOL HAND LUKE a W.U.S.A.). Ni raid gofyn pwy sy'n ennill yr achos, ond nid yw datblygiad y stori mor amlwg a hynny ychwaith. Ceir yma sgript ddeallus a chrefftus a dyna un o'r elfennau, efallai, sy'n gwneud i'r ffilm ymddangos yn hen ffasiwn. Mae hi hefyd yn ffilm â ffydd optimistaidd mewn synnwyr pobl gyffredin o gyfiawnder. Dyna yw arwyddocad y teitl ac mae'n syniad amheuthun, sydd i'w groesawu yn y môr o drais dialgar a gyflwynir mor aml ar y sgrin fel gweinyddu cyfiawnder. (Cyferbyner â ffilmiau fel DEATH WISH a VIGILANTE FORCE ac ati).

Cyfarwyddwyd y ffilm hon yn gynnil a chrefftus gan Sidney Lusset, un sy'n hen law ar greu tyndra ac awyrgylch. Gwna i'r gynulleidfa ymboeni am ffawd y cymeriadau. Tra peri'r ffilm, rydyn yn eu byd, yn eu meddyliau ac yn eu llys barn. Gwasanaethpwyd amcanion y cyfarwyddwr yn lew gan y cast talentog. Roedd James Mason yn arbennig o dda. Roedd Charlotte Rampling hithau yn ei helfen fel cariad a bradwr y twrne. Rhoes natur wyneb i Miss Rampling a'i galluogodd i chwarae'r rhan heb fawr o drafferth. Aeth ochenaid o gymeradwyaeth trwy'r gynulleidfa pan gerddodd Paul Newman i fyny ati a rhoi dyrnod ar ei gên. Ni chollodd yr hen rebel ddim o'i allu, mae'n amlwg!

Proffwydwyd fod Oscar ar y ffordd iddo am y perfformiad hwn. Fe'i henwebwyd eisioes. Rhaid aros yn awr am y dyfarniad!

Aled Islwyn.

UNED YMCHWIL IEITHYDDOL GYMRAEG
COLEG Y BRIFYSGOL, CAERDYDD

----

YR IAITH YM MORGANNWG

CYNHADLEDD UNDYDD

Sadwrn, Ebrill 23ain,
10 a.m. - 4.30 p.m.

Adeilad y Dynoliaethau/
Humanities Building,
Colum Road, Caerdydd.

Tâl Cynhadledd: £1.50 (yn cynnwys coffi a bisgedi),
Myfyrwyr a disgyblion ysgolion: £1.
Sieciau'n daladwy i: Uned Ymchwil Ieithyddol Gymraeg.

Ymholiadau pellach i: Uned Ymchwil Ieithyddol Gymraeg, 18, Ffordd y Gogledd, Caerdydd. CF1 3DY.

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn MAI at Mrs. N. Couch, 2, Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (753625) erbyn 16eg Ebrill.

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru ac i'r Swyddfa Gymreig am eu cefnogaeth ariannol at gostau'r Dinesydd.

HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD 561788

## COLOFN
### Shân Emlyn

Mi ryda chi wedi cael llonydd go dda gen i ers misoedd. Tydwi ddim wedi sôn am Batagonia na mhobol i ers tro byd. Felly, dyma fentro!

Ers mis rydwi'n byw mewn awyrgylch Batagonaidd felys gan fod un o'r Gwladfawyr wedi ymgartrefu efo ni tra ar ymarfer dysgu yn Rhydfelen. Does dim raid imi ddeud yn nag oes bod y sgwrs yn troi i'r Wladfa rhyw ben bob nos, a finna'n cael cyfle i holi ac ehangu fy ngwybodaeth am y bobol a'r bywyd "draw". Rwyf wedi llenwi llawer o fylchau, wedi crisialu yn fy meddwl sut mae hwn a hon yn perthyn, beth yw eu cefndir, beth yw ymateb merch ifanc i fagwrfa Gymreig yn Ne America, a'i hymateb i fywyd yng Nghymru. Rwyf yn drachtio o'r cyfan ac yn cael blas arbennig ar y profiad.

Ar ben hyn treuliais ddiwrnod dymunol Batagonaidd arall yng Nghydweli'n ddiweddar. Daeth criw o eneidiau hoff cytun, bob un wedi bod yn y Wladfa ac "wedi gwirioni'r un fath" i roi cinio croeso i Irma Hughes de Jones, bardd a golygydd papur bro hynota'r byd - Y Drafod. Dyma ei soned i Gymru -

Yn fy mreuddwydion, ganwaith crwydrais i
Dy fryniau a'th ddyffrynoedd, 'mlaen ac ôl.
Clywais dy glychau'n canu dan y lli
Cesglais dy flodau gwylltion hyd y ddôl.
Gwrandewais gân y fronfraith yn y coed,
Nodau y gwcw glywais oddi draw;
Teimlais ddaear Cwm Rhondda dan fy nhroed,
Gwelais Eryri yn y niwl a'r glaw.
Yna daw'r deffro; minnau holi a wnaf
Ai hud y pellter a'th wna di mor dlws
Fel pan hiraethwn aeaf am yr haf
Neu weled gardd drwy wydrau lliw y drws?
Pan ddelo'r dydd i ysgwyd llaw â thi
Rwy'n erfyn Gymru fach, na'm sioma i.

Gwefr a rhyddhad oedd ei chlywed yn mynegi gydag arddeliad na chafodd ei siomi yn ei Chymru bell.

# CYFARFOD BLYNYDDOL Y DINESYDD

**NOS WENER, EBRILL 22**

**FESTRI EGLWYS DEWI SANT**

**7.30p.m.**

anturiaethau - advantages; hoff ewythr - a favourite uncle; ymchwilio - to research; llygod mawr - rats; perfeddion y nos - the middle of the night; uniaethu â - to empathise with; credadwy - credible; cyfundrefn - system; anogwn - we encourage; bylchau - gaps; dyfarnwr - referee





# RHYDDID I'R LOLFA!
I GYHOEDDI PETHAU DIFYR I CHI!!

*Ond grantiau neu beidio, dyma wledd arall o bethau i'ch diddanu a'ch diddori. . .*

## A Oes Heddwch?
**John Cox** **£2.25**
Ffeithiau ac effeithiau'r ras arfau a rhyfel niwclear wedi'u cyflwyno mewn dull byw a graffig iawn. Cyf. Guto Prys ap Gwynfor.

## Dyfroedd Dieflig
**Stokes Day** **£2.45**
Nofel antur wych am bump o derfysgwyr yn cipio llwyth o wastraff niwlcear o Atomfa Trawsfynydd.

POSTERI
## Diarhebion Cymru
**Hywel Harries** **Set o 6—£3**
6 phoster trawiadol a lliwgar iawn yn darlunio rhai o ddiarhebion Cymru yn null ffraeth, unigryw Hywel Harries.

## The Scottish Trip
**Colin Palfrey** **£1.65**
Hanes llond Transit o gefnogwyr rygbi ar eu siwrne alcoholaidd iawn i Gaeredin!

## Cyfres y Beirdd Answyddogol
*Y tair cyfrol ddiweddara—*
12. **DU / Sheelagh Thomas** **£1.45**
13. **SONEDAU BORE SADWRN Iwan Llwyd** **£1.45**
14. **PUM MUNUD ARALL Lona Mari Walters** **£1.45**

## Myfi, Derec
**Derec Tomos** **£2.45**
'Fel Rhech yn Ugain Oed' —hunangofiant gonest bardd a chrafwr ifanc disglair! DIM GRANT gan y Kremlin Llyfrau.

**DIM GRANT** chwaith i lyfr arall anfarwol o ddoniol, sef **TWYLL DYN** gan Eirwyn Pontshân. Yn dal ar werth am y pris colledus o £1.95!

*. . .A mwy o eitemau cysylltiedig â*
## CADWGAN!
**3 POSTER lliw-llawn —60c yr un**
**LLYFR NODIADAU Cadwgan —20c**
**PAPUR SGRIFENNU ac Amlen —£1.20 am becyn o 10**

Anfon am ein Catalog newydd 48-tudalen: ar gael am ddim drwy'r post oddi wrth—
Y Lolfa
TALYBONT, CEREDIGION ffôn 097086/304




# NOSON GYMRAEG

YN NEUADD DEWI SANT,
CAERDYDD
NOS WENER, 8 EBRILL 1983
7.30p.m.
(Teledir gan HTV Cymru)

**ELIZABETH GRONOW**
(Soprano)

**CÔR IEUENCTID DE MORGANNWG**
(Arweinydd, Helena Braithwaite)

**CÔR MEIBION PONTARDDULAIS**
(Arweinydd, Noel Davies)

**CLANNAD**
(Grŵp Gwyddelig)

**CÔR TELYNNAU**
(Arweinyddion, Elinor Bennett
a Meinir Heulyn

**Tocynnau: £3.50, £2.50, £1.50**

**Noddir yr Ŵyl gan HTV Cymru a
Chôr Poliffonig Caerdydd**

---

# FFARWELIO Â DAFYDD

Ydych chi'n cofio cystadleuaeth Dafydd Iwan yn y rhifyn diwethaf? Erbyn meddwl, ydych chi'n cofio Dafydd Iwan? - Wel dyma'r cwestiynau, a'r atebion

1. Pentre John Jones -- a'r ciosg bygiedig(8)
2. Delw'r dydd gwyn y gwelodd Dafydd -- y gân wedi'i thraws-gyweirio (4,5,1,3)
3. Cyfaill D.I. - o'r De draw a Llandegfan (6)
4. Gwersi'r Cownti Sgŵl (6)
5. Yr ôd sy'n od i ffŵl (4)
6. Oed pensiwn mamgu (6,4)

1. TALYSARN
2. RWY'N GWELD Y DYDD
3. EDWARD
4. LESSONS
5. EIRA
6. CHWEDEG NAIN

Y cysylltiad - TRELECH

O'r llu (neu fynydd bychan) o atebion a ddaeth i law, penderfynwyd rhannu'r wobr gyntaf rhwng

DAFYDD WYN THOMAS, 31 Heol St. Ina, Y Mynydd Bychan
a
NEST GRIFFITHS, 30 Africa Gardens, Y Mynydd Bychan.

Rhoddir gwobr gysur i Helen Williams o Landaf am ymdrech dda.

Llongyfarchiadau i bawb.

Ffarwelio dros dro

Roedd Mawrth 31 yn ddiwrnod trist yn Ysgol Feithrin Y Waun gan eu bod yn ffarwelio ag un o'r athrawesau, Mrs. Ann Thomas, a fydd yn ystod y mis yn gadael y brifddinas i ymgartrefu ym Mangor. Dymuniadau gorau i Russ, Ann, a'r plant, Dafydd, Alun ac Owain yn eu cartref newydd. Edrychwn ymlaen at gael eu croesawu yn ôl i'n plith ymhen rhyw dair blynedd.
Wrth ffarwelio ag Ann, croesewir Mrs. Eleri Bines yn gyd-athrawes yn yr ysgol y tymor nesaf. Mae Mrs. Ann Parry yn dal wrth y llyw, diolch byth!

**HYSBYSEBWCH YN
Y DINESYDD
561788**

## ŴYL GORAWL CAERDYDD 1983

Bydd y soprano byd enwog, Margaret Price, a'r tenor, Stuart Burrows ar ben y rhestr o unawdwyr, corau a cherddorion adnabyddus sy'n cyfrannu i Ŵyl Gorawl Caerdydd 1983.

Mae'r Ŵyl yn cael ei noddi ar y cyd gan HTV Cymru a Chôr Poliffonig Caerdydd, yn agor nos Sadwrn, Mawrth 26 gyda'r cyngerdd cyntaf mewn cyfres o bump.

Uchafbwynt yr ŵyl eleni yw perfformiad o Offeren Verdi pan fydd James Lockhart yn arwain Cerdd-orfa Y Ffilharmonia, a'r unawdwyr, Margaret Price, Della Jones, Stuart Burrows a Robert Lloyd yn cymryd rhan.

Mae tri chôr lleol yn dod at ei gilydd i ffurfio'r corws, sef Cantorion Ardwyn, Côr Poliffonig Caerdydd a Chôr Bach, Abertawe.

Perfformir Offeren Verdi nos Iau, Ebrill 7 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Dewi Sant - y tro cyntaf i Ŵyl Gorawl Caerdydd gynnal cyngerdd yn neuadd gyngerdd ddiweddaraf Caerdydd. Darlledir y perfformiad hwn gan HTV Cymru.

Darlledir cyngerdd olaf yr ŵyl gan HTV Cymru hefyd - y Noson Gymraeg a gynhelir yn Neuadd Dewi Sant ar nos Wener, Ebrill 8 am 7.30 p.m.

Ymysg y rhai sy'n cyfrannu i'r Noson Gymraeg mae Elizabeth Gronow, y soprano Gymraeg adnabyddus, a'r grŵp gwerin jazz, Clannad - roedd eu record ddiweddaraf, thema gerdd-orol y ffilm 'Harry's Game', yn siartiau caneuon pop Prydain yn ddiweddar.

Yn yr un cyngerdd ceir cyfraniad gan gôr telynau dan arweiniad y telynorion enwog, Elinor Bennett a Meinir Heulyn, Côr Meibion Pontarddulais, a Chôr Ieuenctid De Morgannwg.

Bydd y côr telynau yn perfformio yn gyhoeddus am y tro cyntaf ddarn a gomisynwyd yn arbennig gan y cyfansoddwr Cymraeg ifanc, Gareth Glynne - dilyniant o alawon gwerin Cymraeg, 'Cwlwm Cân'. Gareth Glynne, gyda'i briod, Eleri Gwyfan, oedd cyfansoddwyr y gân fuddugol yng nghystadleuaeth 'Cân i Gymru' ym 1981. Erbyn hyn y mae'r gân honno, 'Dechrau'r Dyfodol' wedi cael ei recordio gan Dafydd Iwan a'r grŵp Ar Log.

Mae Gareth Glynne hefyd yn gyfrifol am gyfansoddi 'Cadwyn', sef cadwyn o alawon gwerin a gyflwynir yn y Noson Gymraeg gan Gôr Ieuenctid De Morgannwg.

Cyflwynir y Noson Gymraeg gan ddarlledwyr adnabyddus HTV Cymru, Elinor Jones a Gwyn Erfyl.

Mae tocynnau ar gyfer pob un o'r cyngherddau ar gael yn swyddfa docynnau Neuadd Dewi Sant, Caerdydd.

---

O tud. blaen.

Fel aelod oes o Gymdeithas y Clwb rwyf yn llawenhau bod ymdrechion y swyddogion i sicrhau adeilad addas i ddibenion y Clwb wedi llwyddo ar ôl llawer i siom.

Gobeithiaf y bydd Cymry Cymraeg Caerdydd o bob oed yn gwneud y defnydd llawnaf o'r Clwb fel canolfan cymdeithasol ac fel lle hwylus i weithgareddau diwylliannol o bob math yn ogystal.

Mae hi'n bwysig iawn fod bywyd brwd ac amrywiol yn datblygu yn y Clwb neu fe fydd peryg iddo ddirywio i fod yn ddim ond clwb yfed. Hyderaf yn fawr y gwelir y fenter yn llwyddo.

Gwyn Lewis Davies.

Hoffwn weld pobl o bob oedran ag â gwahanol ddiddordebau yn defnyddio'r Ganolfan. Hoffwn weld mudiadau a chym-deithasau fel Merched y Wawr, Clwb Cinio, Clwb Rygbi, Y Cymrodorion a Chymdeithas y Dysgwyr yn arbennig, yn manteisio ar yr adeilad. Dyma gyfle i ddechrau clybiau newydd - Clwb Canu Gwerin, Clwb Jazz, Clwb 'Bridge' etc. Cyfle hefyd i arlunwyr a chrefftwyr arddangos eu gwaith. Braf fyddai taro i mewn ar ôl siopa am baned o goffi a rhywbeth i'w fwyta a chael clonc yn y Gymraeg yr un pryd.

Catherine Jobbins.

---

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

LYNN JONES

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

Buddsoddiadau Yswiriant Bywyd Pensiynau

HYSBYSEBWCH YN
Y DINESYDD
561788

Llongyfarchiadau oddi wrth Clwb Cymric i John a Carol Hardy (Pontypridd) ar enedigaeth mab ar ddydd Sadwrn, Mawrth 19eg. Gobeithio y bydd mwy o siâp peldroediwr arno nag oedd ar ei dad!

### Record Bryntaf

I'r rhai ohonoch sydd heb eto archebu record carai'r dosbarthwyr dynnu eich sylw bod recordiau ar gael o hyd. Oni werthir y gweddill bydd colled ariannol sylweddol ar y fenter. Os dymunwch brynu record neu gyfrannu'n ariannol at gôst y fenter, cysylltwch â Mrs. Siân Thomas, Ffôn: 62909

Llongyfarchiadau i Alan Jobbins ar gael ei benodi yn Ymgynghorydd 'Adfer' yng Ngwent. Ar hyn o bryd mae'n Drefnydd 'Adfer' ym Mhowys. Bydd yn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Medi.

Dymuniadau gorau i Catrin Jarman ar ei phriodas â Keith Richards o'r Barri. Fe'u priodwyd ar Fawrth 11eg a chynhaliwyd y Brecwast yn yr Ystafell Gymraeg. Llongyfarchiadau cynnes iddynt ill dau.

---

PRIFYSGOL CYMRU

CANOLFAN DYSGU CYMRAEG I OEDOLION

CWRS HYFFORDDI ATHRAWON

(rai profiadol a dibrofiad)


Pob nos Fawrth, 26 Ebrill - 21 Mehefin

4.30 - 5.30 p.m.

Manylion o 6 Gwennyth St., Cathays. Ffôn: 390980

---

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn    RHIF 31



AR DRAWS

1. Yr holl ffordd (3,3,)
5. Byddai yn arfer mynd i'r dŵr (8)
9. Anwyliaid sy'n dod yn ddau a dau o dir Cana (8)
10. Awn i un sy'n gwneud pethau yn deg (6)
11. Trwbl i'r dde yna o'r ornest hon (6,1,5)
13. o (4)
14. Pethau gwelw mewn trafferth ddiddiwedd, ac ysig hefyd, a ddaw ynghyd i berthyn i'r llan (8)
17. A oes creaduriaid yn sugno gwaed yn y dref hon yng Nghlwyd? (8)
18. 105 cn (4)
20. Cywydd sy'n cynnwys sudd oer yn gymysg â'r mymryn cyntaf o hufen yn rhoi hysbysrwydd i'r achos(12)
23. Uwd sy'n llawn angerdd ar ôl ei droi (6)
24. Byddid yn gweld priodoleddau arbennig; nid oedd W.D. mewn penbleth (8)
25. Darn treigledig wedi ei lyncu gan wystl yn y parthau hynny (8)
26. Glesni'r coed (6)

I LAWR

2. Y diwethaf i roi trefn ar ei fola (4)
3. Chwaer Catrin yn baglu ac yn gollwng hanner y llaeth wrth ddod at y gwr prin ei haelioni (9)
4. Gosod y gwair yn bentyrrau (6)
5. Wedi diosg ei sgidiau (2,6,2,5)
6. Gwneud pedair gwaith cymaint? (8)
7. "Hen hosan â'i choes yn eisie, -- ei brig

Heb erioed ei ddechre,
A'i throed heb bwyth o'r ede
— Hynny yw dim, ----?" (5)

8. Gan fustachu o gwmpas Blaennant, aeth tarw i'r sêl (10)
12. Pwyllgor y papur hwn(10)
15. Llochesau a wneir wrth arllwys efydd mygddu tawdd i'r mowld (9)
16. Buaswn yn arfer troedio ffordd arall (8)
19. Malltod y lliw sydd arnom (6)
21. Amser a lle'r cyfarfod(5)
22. Blodeuyn y dyffrynnoedd (4)

DATRYSIAD CROESAIR MIS MAWRTH (Trwy amryfusedd, rhoddwyd Rhif 31 arno, Rhif 30 ddylai fod)

Ar Draws: 1. CYDNABUOST; 8. EGNI; 10. ECONOMEGYDD; 11. EIDDO; 13. CYFFELYB; 15. CRYMAN; 16. DDARLITH; 17. SIARAD FEL TWRNAI; 18. GWELWI; 20. DIGOST; 21. YSTUMOG; 22 EBILL; 25. OFN TYWYLLWCH; 26. IWDA; 27. NID O'R TREFI

I Lawr: 2. YFED; 3. NEON; 4. BLODYN; 5. OFER ESGEULUSTOD; 6. TRYWYDD; 7. DINOETHAIST; 9. GWIALENNOD; 12. CYFADDEFIAD; 13. CANADWY; 14. BARWNIG; 15. CYSEGREDIG; 19. ISAFON; 20. DOFWYR; 23. ALLOR; 24. UCHAF.

# LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Berwyn Prys Jones a Rhian Ethall ar eu dyweddiad. Mae'r ddau yn Gyfieithwyr yn y Swyddfa Gymreig.

---------

Dymuniadau gorau i Mali Roberts, Pennaeth yr Adran Ffrangeg yn Ysgol Rhydfelen, sydd, yn ystod gwyliau'r Pasg, yn priodi â John Rowlands, athro yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

---------

## Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Alan Wayne a Christine Jones ar enedigaeth Thomas Rhys ar Fawrth y 5ed; brawd bach i Gethin Siôn ac Owen Dafydd.

----

Yr un croeso cynnes hefyd i Ifan Tudur, mab bach newydd anedig Rhys ac Elin Tudur, Gwaelod y Garth. Mae Siôn Tudur a Ffion Tudur wrth eu bodd gyda'u brawd bach a anwyd ar Fawrth y 14eg.

---------------

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs. Barbara Evans, Earls Court Rd. ar farwolaeth ei thad.

-----

Estynnwn hefyd ein cydymdeimlad â'r actores, Mrs. Nesta Harries, ar golli ei gŵr, Mr. Lesley Harries, cyn brifathro Ysgol Ramadeg Dinbych. Ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs. Harries a'r plant Gillian a Robert.



Argraffwyd gan Fingerprints(TU), Caerdydd. FP 356